Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu

Dyddiad	24 Hydref 2018	**Cadeirydd**	Lee Jones (Pennaeth Staff y Comisiynydd)	**Man Cyfarfod**	Pencadlys yr Heddlu, Pen-y-bont ar Ogwr
Y rhai a fu'n bresennol	**Tîm y Comisiynydd:** Lee Jones (LJ), Hannah Jenkins-Jones (HJJ), Jacqueline Trow (JT) Sarah Mahon (SM) Heddlu De Cymru: Prif Gwnstabl Cynorthwyol Jenny Gilmer (JG) Prif Arolygydd Steve Jones (SJ), Carol Woodward (CW), Amy Thomas (AT) Prif Arolygydd John Wainwright (JW) **Aelodau'r grŵp:** Claire Cunliffe (CC), Gareth Hughes (GH), Steve Warner (SW) Graeme Johnston (ACEM)				

Crynodeb o'r Trafodaethau

1. Croeso a Chyflwyniadau

Diolchodd LJ i'r aelodau am ddod i'r cyfarfod a nododd ymddiheuriadau oddi wrth y rhai nad oeddent yn gallu bod yn bresennol. Pwysleisiodd LJ bwysigrwydd fforwm y grŵp, gan roi sicrwydd i'r aelodau bod eu hymrwymiad i ddod i gyfarfodydd a chyfrannu yn cael ei werthfawrogi. Er mwyn dangos sut roedd adborth gan aelodau'r grŵp wedi llywio polisïau a dyluniad gwasanaethau ac wedi dylanwadu arnynt ers sefydlu'r grŵp yn 2017, cyfeiriodd LJ at gofnod monitro adborth y grŵp a ddosbarthwyd yn y cyfarfod. Esboniodd LJ fod y cofnod yn cofnodi adborth ac argymhellion gan yr aelodau ac yn dangos sut roedd y rhain wedi'u defnyddio. Y gobaith oedd y byddai'n fodd i'r aelodau weld bod eu hadborth a'u cyfraniadau wedi dylanwadu ar newidiadau cadarnhaol.

Esboniodd LJ fod y Comisiynydd a'i dîm wedi bod yn ailddatblygu eu strwythur llywodraethu a chraffu yn ddiweddar a bod y grŵp wedi chwarae rôl allweddol yn y model hwn. Dywedodd LJ fod Panel yr Heddlu a Throseddu, sy'n dwyn y Comisiynydd i gyfrif, wedi dangos diddordeb yn y grŵp a'i fod yn awyddus i gael diweddariadau o'r cyfarfodydd.

2. Cofnodion a Chamau Gweithredu

Ni chodwyd unrhyw faterion na newidiadau o ran cofnodion y cyfarfod blaenorol. Trafodwyd camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol a rhoddwyd y diweddariadau canlynol:

1	Rhannu ymchwil Stonewall	Alex Drummond	**Wedi'i gwblhau** – roedd hyn wedi helpu i fwydo i mewn i Strategaeth Ymgysylltu'r Comisiynydd
2	Cynllun prentisiaeth	Debbie Nugent	

	- Rhannu dogfennau lleol a chenedlaethol am brentisiaethau i'r grŵp. - Rhoi'r diweddaraf i'r grŵp ar hynt yr asesiad o effaith prawf seicometrig y Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu ar gydraddoldeb. - Sicrhau bod y rhai sy'n gwneud cais i'r cynllun prentisiaeth newydd yn cael gwybod am yr opsiynau gweithio hyblyg – cael eglurder ynglŷn â'r sefyllfa gan y brifysgol sy'n cyflwyno'r cynllun.		**Wedi'i gwblhau** – Roedd dogfennau cenedlaethol wedi'u dosbarthu i'r grŵp. **Yn barhaus** – Roedd proses yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn parhau. Roedd Heddlu De Cymru wedi hysbysebu'r cyfleoedd a byddai'n dadansoddi'r data ar gyfraddau gadael, yn enwedig ymhlith grwpiau lleiafrifol. Roedd Heddlu De Cymru wrthi'n gweithio gyda'r darparwr i sicrhau bod deunydd cyfathrebu yn amlinellu'r cyfleoedd i weithio'n hyblyg (ar ôl 39 wythnos)
3	Ystyried dichonolrwydd monitro cyfansoddiad rhestrau gwylio a ddefnyddir ar gyfer technoleg adnabod wynebau awtomtig. Ystyried cysylltu ag elusennau sy'n chwilio am bobl ar goll er mwyn hyrwyddo'r defnydd cadarnhaol o dechnoleg adnabod wynebau awtomatig	Scott Lloyd	Caiff y rhesymeg dros 'gyfansoddiad' rhestrau gwylio ei chofnodi cyn defnyddio'r dechnoleg a'i nodi yn yr adroddiad ar ddefnyddio'r dechnoleg. Caiff rhestrau gwylio, gan gynnwys pob delwedd a'r holl wybodaeth bersonol, eu dileu yn union ar ôl defnyddio'r dechnoleg ar hyn o bryd a, sut bynnag, o fewn 24 awr. **Parhaus –** Mae Heddlu De Cymru yn parhau i drafod hyn â swyddog arweiniol cenedlaethol y Prif Gwnstabliaid dros dechnoleg adnabod wynebau awtomatig. Byddai'r grŵp yn cael ei hysbysu am ganlyniadau'r trafodaethau yn y Bwrdd Strategol ar dechnoleg adnabod wynebau awtomatig yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.

Dywedodd HJJ wrth y grŵp hefyd fod yr Arolygydd Scott Lloyd yn cynllunio digwyddiad ymgysylltu ynglŷn â thechnoleg adnabod wynebau awtomatig, yn bennaf i aelodau'r grŵp. Byddai HJJ yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth am y digwyddiad hwn yn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr.

CAM GWEITHREDU: HJJ i roi rhagor o wybodaeth am y digwyddiad ymgysylltu ynglŷn â thechnoleg adnabod wynebau awtomatig yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr.

3. Iechyd Meddwl a Phlismona

Cyflwynodd HB ei hun a rhoddodd drosolwg cryno o'i gyrfa ym maes iechyd meddwl a nyrsio. Esboniodd HB gam gasglu gwybodaeth y prosiect iechyd meddwl. Roedd hyn wedi cynnwys cysgodi swyddogion rheng flaen, casglu data o'r ddalfa a hwyluso grwpiau ffocws â swyddogion er mwyn deall eu

profiadau. Yn ogystal â hyn, roedd HB wedi gweithio gyda sefydliadau yn y trydydd sector a'r sector cyhoeddus er mwyn nodi arferion gorau ledled y wlad.
Hysbysodd HB y grŵp bod Heddlu De Cymru wedi gweld cynnydd cyson yn nifer y galwadau a oedd yn ymwneud ag iechyd meddwl o un flwyddyn i'r llall ers 2012 drwy'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ac ar y rheng flaen. Roedd hyn wedi rhoi swyddogion a staff mewn sefyllfa anodd, gan nad oedd ganddynt lefel yr arbenigedd i benderfynu ar y canlyniad gorau i unigolyn mewn argyfwng iechyd meddwl.

Yn ystod mis Hydref 2017, comisiynodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol arweiniol dros Iechyd Meddwl yng Nghymru Ddiwrnod Galw o ran Iechyd Meddwl Amcan y diwrnod galw oedd cofnodi a dadansoddi'r holl achosion mewn perthynas â'r unedau rheoli sylfaenol a'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar yr amser a gymerwyd i ddelio â phobl ac achosion lle roedd iechyd meddwl yn ffactor. Hefyd, cynhaliodd Tîm Arolygu Mewnol Heddlu De Cymru adolygiad o'r ffordd roedd yr heddlu yn nodi ac yn cefnogi unigolion mewn argyfwng iechyd meddwl. Ar gyfartaledd, roedd swyddogion wedi cymryd tair awr a hanner i ddelio â'r achosion yn yr adolygiad, a oedd yn cyfateb i ganfyddiadau'r diwrnod galw o ran iechyd meddwl. Fodd bynnag, yn chwarter yr achosion a adolygwyd, roedd swyddogion wedi treulio dros bum awr.

Dywedodd HB fod Heddlu De Cymru, mewn ymateb i'r canfyddiadau a oedd yn deillio o gasglu tystiolaeth fewnol a nodi arferion gorau megis 'brysbennu stryd' Birmingham, bellach wedi dyrannu cyllid i leoli gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus. Y nod fyddai gofyn i weithwyr proffesiynol iechyd meddwl frysbenu galwadau a oedd yn ymwneud ag iechyd meddwl, a allai roi cyngor cyson, a, lle y bo angen, drefnu apwyniadau i asesu achosion nad oeddent yn rhai brys. Byddai dull gweithredu'r Heddlu a'r Byrddau Iechyd ar y cyd i frysbennu ar adeg y cysylltiad cyntaf yn ei gwneud yn bosibl i'r ddau wasanaeth ganolbwyntio adnoddau a'r galw drwy ddefnyddio ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dywedodd HB eu bod yn anelu at lansio erbyn canol mis Rhagfyr, ond roeddent yn dal wrthi'n penodi – gallai fod oedi oherwydd canlyniad y broses hon.

Yn ogystal â hyn, esboniodd HB fod Heddlu De Cymru yn datblygu ap iechyd meddwl i gofnodi camau gweithredu ac arsylwadau swyddogion mewn amser real mewn perthynas â galwadau a oedd yn ymwneud ag iechyd meddwl. Rhagwelwyd y byddai'r ap yn chwarae rôl hollbwysig yn y gwaith o ddangos ymrwymiad Heddlu De Cymru i fod yn agored ac yn dryloyw o ran ei weithdrefnau yn ogystal â dangos tegwch gweithdrefnol ac ymgorffori prosesau gwneud penderfyniadau cydweithredol.

Gofynnodd GH beth fyddai'r flaenoriaeth i'r heddlu pe bai unigolyn â chyflwr iechyd meddwl yn cyflawni trosedd ac mewn argyfwng ar adeg ei arestio. Dywedodd HB, yn ddelfrydol, mai'r flaenoriaeth fyddai delio â'r argyfwng yn y lle cyntaf, ac wedyn y drosedd. Fodd bynnag, roedd hwn yn fater dadleuol ar hyn o bryd. Aeth y grŵp yn ei flaen i drafod hygyrchedd gwasanaethau i unigolion iau yr oedd angen cymorth iechyd meddwl arnynt. Cytunodd HB y câi hyn ei ystyried ar y cyd â sefydliadau priodol.

Diolchodd LJ i HB am ei chyfraniad ac awgrymodd ei fod yn bwnc i'w ystyried eto yn y dyfodol, o ystyried y pwysau enfawr ar adnoddau a'r galw.

CAM GWEITHREDU: SM i rannu manylion cyswllt HB pe bai angen rhagor o wybodaeth ar aelodau'r grŵp

4. Stopio a Chwilio

Rhoddodd SM drosolwg o'r broses sicrhau ansawdd a gynhaliwyd gan dîm y Comisiynydd. Roedd y gwiriadau sicrhau ansawdd yn amrywio o gofnodion stopio a chwilio, boddhad dioddefwyr troseddau casineb, dyfeisiau fideo a wisgir ar y corff a chwynion. Er bod Heddlu De Cymru yn cynnal ei wiriadau sicrhau ansawdd ei hun, rôl tîm y Comisiynydd oedd rhoi safbwynt lleygwr annibynnol.

Rhannodd SM ganfyddiadau'r hapsampl o achosion o stopio a chwilio a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2018. Edrychodd yr adolygiad ar 112 o samplau a ddewiswyd ar hap o blith pob un o'r unedau rheoli sylfaenol yn ogystal â phob categori o leiafrif ethnig. Roedd cyfanswm o 12 o ffurflenni wedi rhoi sail dros chwilio a oedd yn ymddangos yn amheus. Roedd y rhesymau yn cynnwys stopio a chwilio unigolion yn seiliedig ar eu collfarniadau blaenorol yn bennaf, heb fawr ddim tystiolaeth, os o gwbl, i awgrymu sail wrthrychol dros chwilio'r unigolyn. Cwblhaodd SM ei chyflwyniad drwy hysbysu'r grŵp am y gwaith sicrhau ansawdd a oedd yn yr arfaeth. Dywedodd hefyd y câi'r adroddiadau eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd am ei bod yn bwysig bod y cyhoedd yn gweld bod gwaith y Comisiynydd yn agored ac yn dryloyw.

Rhoddodd HJJ y diweddaraf ar yr ymarfer hapsamplu fideos o ddyfeisiau a wisgir ar y corff a gynhaliwyd ganddi ym mis Awst. Hwn oedd yr ymarfer cyntaf gan dîm y Comisiynydd i hapsamplu fideos o ddyfeisiau a wisgir ar y corff. Ar gyfer y broses hon, nodwyd 10 fideo a ddewiswyd ar hap, yr oedd pob un yn cynnwys ffilm a oedd wedi'i chategoreiddio'n achos o stopio a chwilio. Daeth pob fideo o sampl o achosion o stopio a chwilio a ddigwyddodd yn ardal Heddlu De Cymru rhwng 1 Gorffennaf ac 1 Awst 2018. Yn debyg i'r ymarfer hapsamplu cofnodion stopio a chwilio, ei nod oedd cynnig safbwynt lleygwr annibynnol, h.y. beth fyddai aelodau'r cyhoedd yn ei feddwl pe baent wedi gweld neu wedi profi hyn.

Y pwyntiau allweddol a ystyriwyd yn ystod yr ymarfer oedd y graddau roedd swyddogion wedi cadw at y protocol 'GOWISELY' yn ystod pob chwiliad. Yn ogystal â hyn, ystyriwyd cwrteisi cyffredinol swyddogion yn ystod pob chwiliad. O'r 10 fideo a welwyd, roedd 8 yn dangos bod y swyddogion wedi cadw at 'GOWISELY', roedd un yn anodd i'w farnu oherwydd amseriad diffodd y fideo, ac roedd un achos yn dangos bod swyddogion wedi cadw at 'GOWISELY' ar y cyfan ond nad oedd y ffaith bod chwiliad ar fin digwydd wedi'i nodi'n benodol. Hysbysodd HJJ y grŵp nad oedd wedi gweld swyddogion yn cynnig nac yn darparu derbynebau yn unrhyw un o'r 10 fideo, a oedd yn achos pryder. Roedd hyn yn arbennig o bwysig, gan fod gan unigolion yr hawl i gael y wybodaeth hon pe baent am gwyno am eu profiad. Gan nad oes unrhyw gwynion ynglŷn ag achosion o stopio a chwilio gan Heddlu De Cymru ar hyn o bryd, roedd yn rhywbeth pwysig i'w nodi, gan y byddai angen y wybodaeth a roddir ar y dderbynneb i unigolion gyfeirio ati, pe baent am wneud cwyn.

Cyfeiriodd SJ at adroddiad perfformiad stopio a chwilio Heddlu De Cymru a ddosbarthwyd i'r grŵp cyn y cyfarfod. Rhoddodd yr adroddiad ffigurau ystadegol sylweddol ynglŷn ag achosion o stopio a chwilio yn ardal yr heddlu. Rhoddodd SJ ddadansoddiad o nifer yr achosion o stopio a chwilio a'r cyfraddau canlyniad. Hefyd, amlinellodd SJ broses craffu ar stopio a chwilio'r heddlu a oedd ar waith er mwyn sicrhau bod pwerau'n cael eu defnyddio'n deg ac yn gyfreithlon. Canolbwyntiodd y broses ar seiliau dros chwilio, anghymesuredd a defnydd amhriodol o bwerau stopio a chwilio a chwblhau ffurflenni'n gywir er cywirdeb data. Dywedodd SJ hefyd fod yr heddlu wedi rhoi gwybod ar raddfa helaeth am y gofyniad i bob chwiliad gael ei recordio drwy ddyfais fideo a wisgir ar y corff. Roedd pob aelod o staff yr unedau rheoli sylfaenol bellach wedi cael hyfforddiant ac roedd swyddogion wedi cael y dyfeisiau i'w defnyddio yn ystod patrolau plismona gweithredol. Hysbysodd CW y grŵp bod trafodaethau ynglŷn â dosbarthu camerâu cudd a wisgir ar y corff i swyddogion dillad plaen hefyd yn parhau.

Gofynnodd GH a ellid rhannu fideos o ddyfeisiau a wisgir ar y corff â'r cyhoedd ar ôl cais am fynediad at ddata gan destun y data ac, os felly, a fyddai angen golygu'r fideos. Cafodd y grŵp drafodaeth fer ar faterion diogelu data o ran rhyddhau fideos o ddyfeisiau a wisgir ar y corff, gan gytuno y byddai'n briodol parhau â'r trafodaethau y tu allan i'r cyfarfod.

Cyflwynodd SJ nifer o fapiau cofnodi troseddau yn erbyn achosion o stopio a chwilio a luniwyd gan ddadansoddwr yr heddlu. Cafodd y mapiau eu datblygu i ddangos perthynas rhwng troseddau wedi'u cofnodi ac achosion o stopio a chwilio, gan fod hyn yn dangos bod swyddogion yn targedu eu pwerau yn y lleoedd cywir. Dywedodd SJ fod y cynnydd yn nifer yr achosion o stopio a chwilio, ynghyd â'r cyfraddau canlyniad cadarnhaol yn dangos, ar y cyfan, fod yr heddlu yn defnyddio ei adnoddau'n effeithiol. Ychwanegodd CW fod y cynnydd yn nifer yr achosion o stopio a chwilio hefyd yn debygol o fod o ganlyniad i droseddau 'llinellau cyffuriau'. Roedd pob un o'r 43 o heddluoedd wedi cytuno bod stopio a chwilio yn ddull effeithiol o atal troseddau mewn ymateb i'r broblem genedlaethol hon.

Diolchodd LJ i SM, HJJ a SJ am eu cyfraniad ac awgrymodd y byddai'n fuddiol cael cyflwyniad ar linellau cyffuriau mewn cyfarfod yn y dyfodol, a fyddai'n rhoi cyd-destun i'r cynnydd yn nifer y troseddau a oedd yn ymwneud â chyllyll a chyffuriau.

Dywedodd LJ, er ei bod yn gadarnhaol gweld gwiriadau sicrhau ansawdd mewnol rheolaidd a oedd yn monitro dilysrwydd a sicrwydd cofnodion stopio a chwilio, ei bod yn bwysig hefyd sicrhau ein bod yn mynd ati i feithin dealltwriaeth y cyhoedd o'r ymateb tactegol i'r bygythiadau newydd hyn. Mae'n bosibl nad yw canfyddiad y cyhoedd am ymatebion tactegol megis stopio a chwilio bob amser yn gadarnhaol ac roedd yn bwysig ein bod yn dryloyw wrth ymdrin â chymunedau yr oedd hyn yn fwy tebygol o effethio arnynt.

CAM GWEITHREDU: SM i drefnu cyflwyniad ar linellau cyffuriau mewn cyfarfod yn y dyfodol

5. Adroddiad Asesu Strategol Heddlu De Cymru

Cytunodd y grŵp i ohirio'r eitem hon tan y cyfarfod nesaf gan fod y cyfarfod wedi mynd dros amser.

6. Unrhyw fusnes arall

Diolchodd LJ i bawb am eu cyfraniadau a phwyleisiodd unwaith eto bwysigrwydd y grŵp. Yn anffodus, ar yr achlysur hwn, cafwyd nifer o ymddiheuriadau hwyr, a oedd yn golygu mai nifer bach o'r aelodau oedd yn bresennol. Gofynnodd LJ i'r aelodau feddwl am sefydliadau ychwanegol a allai ddod i'r cyfarfodydd, gan ei bod yn bwysig bod y grŵp yn gynrychioliadol. Nododd LJ hefyd y byddai'n cysylltu ag aelodau presennol y grŵp i gadarnhau a oeddent yn dal yn ymrwymedig i ddod i gyfarfodydd y grŵp.

CAMAU GWEITHREDU – cysylltu ag aelodau presennol y grŵp ac ystyried sefydliadau ychwanegol i ddod yn aelodau.

Tabl Camau Gweithredu

Cam Gweithredu	Disgrifiad	Person Cyfrifol	Diweddariad ar y Cam Gweithredu
1	Rhoi diweddariad arall mewn perthynas â'r digwyddiad ymgysylltu ynglŷn â thechnoleg adnabod wynebau awtomatig yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr.	Hannah Jenkins-Jones	Diweddariad i'w roi yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr.
2	Rhannu manylion cyswllt Helen Bennet ag aelodau'r grŵp.	Sarah Mahon	Wedi'i gwblhau – wedi'u rhannu drwy e-bost
3	Trefnu cyflwyniad ar linellau cyffuriau mewn cyfarfod yn y dyfodol.	Sarah Mahon	Wedi'i gwblhau – wedi'i drefnu ar gyfer 12 Rhagfyr.
4	Cysylltu ag aelodau presennol y grŵp ac ystyried sefydliadau ychwanegol.	Hannah Jenkins-Jones	Wedi'i gwblhau – Anfonwyd llythyrau at aelodau presennol y grŵp er mwyn cadarnhau pwy fyddai'r prif gynrychiolydd a'r cynrychiolydd amgen ar gyfer y grŵp. Mae sefydliadau ychwanegol hefyd wedi cael eu gwahodd.